

Proses delio â cheisiadau a chynnal ymchwiliadau: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Ar ôl derbyn cais i ymchwilio i achos honedig o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, dyma fydd y Comisiynydd yn ei wneud:



* Mae ceisiadau dilys wedi eu gyflwyno'n ysgrifenedig (oni bai fod amgylchiadau personol yn rhwystro hynny), wedi eu cyflwyno o fewn 12 mis i'r ceisydd ddod yn ymwybodol o'r mater, yn cynnwys manylion digonol, gan gynnwys pw yw'r person a wnaeth yr ymyrraeth honedig, a beth oedd yr ymyrraeth honedig; ac yn cyd-fynd â'r diffiniad o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mesur y Gymraeg, gan gynnwys ei fod wedi digwydd yng Nghymru. Os nad yw'r cais yn ddilys, bydd y Comisiynydd yn esbonio sut i wneud cais dilys.

Cynnal ymchwiliadau

Wrth gynnal ymchwiliad, dyma fydd y Comisiynydd yn ei wneud:

- Rhoi gwybod i'r ceisydd a'r person yr honnir iddo ymyrryd
- Gofyn am wybodaeth neu farn gan y ceisydd, y person yr honnir iddo ymyrryd, neu unrhyw berson arall am yr ymyrraeth honedig, a rhoi cyfle iddynt ymateb i unrhyw honiadau
- Ymgynghori â'r person yr honnir iddo ymyrryd ar farn y Comisiynydd ar yr ymyrraeth a'r dyfarniad y bwriada ei wneud
- Dyfarnu a fu ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg
- Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod ymyrraeth wedi digwydd, bydd yn rhoi ei barn ar i ba raddau y gellid cyfiawnhau'r ymyrraeth
- Caiff y Comisiynydd roi cyngor i unrhyw un ynghylch yr ymyrraeth honedig neu faterion sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig
- Caiff y Comisiynydd lunio adroddiad ar y cais ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb iddo, a rhoi'r adroddiad i Weinidogion Cymru, gyda chopi i'r ceisydd a'r person yr honnir iddo ymyrryd
- Caiff y Comisiynydd gyhoeddi'r adroddiad os yw'r ceisydd a'r person yr honnir iddo ymyrryd yn cytuno i hynny neu os oes budd cyhoeddus i gyhoeddi'r ddogfen

Mae adroddiadau blaenorol ar geisiadau i ddyfarnu ar ymyrraeth honedig â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.